

## Grŵp Cynghorol BAME ar COVID-19 – Papur tystiolaeth ar effaith bosibl COVID-19

Mae Llywodraeth Cymru yn cael llawer iawn o wybodaeth/adroddiadau/briffiadau ar effaith bosibl COVID-19 ar bobl â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru, a hynny gan y llu o randdeiliaid rydym yn cydweithio â nhw sydd, yn garedig ac yn ddefnyddiol iawn, yn eu hanfon atom. Rydym yn gweithio i gasglu, cofnodi a dadansoddi popeth a gawn, fel ein bod mewn sefyllfa i sicrhau bod effeithiau posibl COVID-19 ar gydraddoldeb yng Nghymru yn cael eu deall, eu hystyried a'u lliniaru lle y bo angen.

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb lefel uchel o'r wybodaeth/adroddiadau/briffiadau a gaiff Lywodraeth Cymru, sy'n nodi effaith bosibl COVID-19 ar leiafrifoedd ethnig. Fe'i defnyddiwyd i ddatblygu sail dystiolaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol BAME ar COVID-19. Adolygwyd tystiolaeth feintiol ac ansoddol o'r dylanwadau economaidd-gymdeithasol a chymdeithasol ar ganlyniadau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant BAME. Ymhlith y ffynonellau mae adroddiadau a phapurau ymchwil wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, yn ogystal â llenyddiaeth lwyd, yn cynnwys blogiau ac arsylwadau heb eu cyhoeddi.

Mae'n bwysig nodi nad adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth, yn cynnwys chwilio'r holl dystiolaeth sydd ar gael ar effaith COVID-19, yw hwn – yn hytrach canolbwyntiwyd ar nodi canfyddiadau allweddol y llu o ffynonellau tystiolaeth y mae'r llu o randdeiliaid rydym yn cydweithio â nhw bob dydd wedi'u rhoi i Lywodraeth Cymru. Hefyd, rhaid nodi nad arfarnwyd cadernid nac ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd, felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau. Bydd angen mwy o ymchwil o ansawdd uchel cyn y gellir dod i unrhyw gasgliadau.

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                    | Awdur                                                 | Math                                                 | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|----------------------------------|-------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Adroddiad ICNARC ar COVID-19 mewn gofal critigol / Yn mynd rhagddo / <a href="https://www.icnarc.org/Our-Audit/Audits/Cmp/Reports">https://www.icnarc.org/Our-Audit/Audits/Cmp/Reports</a> | Canolfan Ymchwil ac Archwilio Genedlaethol Gofal Dwys | Adroddiad ymchwil (caiff ei ddiweddar u bob wythnos) | Oedran; Rhyw; Hil                | Iechyd                  | Mae Canolfan Ymchwil ac Archwilio Genedlaethol Gofal Dwys (ICNARC) wedi bod yn adrodd yn wythnosol ar achosion mewn unedau gofal critigol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ers mis Ebrill, dangoswyd yn rheolaidd fod traean o'r bobl mewn unedau gofal critigol lle cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 wedi'u cofnodi'n bobl o gefndiroedd |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                           | Awdur                 | Math  | Nodweddion gwarchodedig dan sylw                       | Meysydd polisi dan sylw                                                                                                                                                   | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|-------|--------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                   |                       |       |                                                        |                                                                                                                                                                           | pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME).                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Crises Collide: Women and Covid-19 / 09 Ebrill 2020 / <a href="https://wbg.org.uk/analysis/reports/crises-collide-women-and-covid-19/">https://wbg.org.uk/analysis/reports/crises-collide-women-and-covid-19/</a> | Grŵp Cyllideb Menywod | Briff | Rhyw; Oedran; Hil; Anabledd; Beichiogrwydd a Mamolaeth | Iechyd; Gofal cymdeithasol; Cyflogaeth; Tlodi; Addysg; Gofal plant; Nawdd Cymdeithasol ; Tai; Trais yn erbyn Menywod a Merched; Cyfiawnder, hawliau dynol a democratiaeth | <p>Mae'r briff hwn yn amlinellu'r materion sy'n ymwneud â menywod a COVID-19 yn y DU a gwna argymhellion ar gyfer gwneud gwelliannau sy'n ystyriol o rywedd i ymateb Llywodraeth y DU.</p> <p>Rhestrir y prif heriau sy'n wynebu menywod o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- bod deirgwaith yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr, felly maent yn llai tebygol o fod yn gymwys i gael eu rhoi ar ffyrlo neu i gael Tâl Salwch Statudol.</li> <li>- bod yn fwy tebygol o ennill cyflog isel ac eisoes bod yn byw mewn tlodi, yn ogystal â chael llai o gynilion er mwyn gallu ymdopi ag ennill llai.</li> <li>- bod wedi'u cynrychioli'n ormodol yn y gwasanaeth iechyd lle maent yn wynebu mwy o amlygiad a phrinder cyfarpar diogelu personol, neu gyfarpar diogelu personol nad yw'n addas.</li> <li>- yn ystadegol yn fwy tebygol o fod â mwy na thri o blant, sy'n golygu eu bod yn wynebu costau ychwanegol yn sgil cau ysgolion, ac yn ei chael hi'n anodd</li> </ul> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Awdur                       | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw                                      | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|------|----------------------------------|--------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                             |      |                                  |                                                              | <p>ymdopi â'r terfyn dau blentyn ar fudd-daliadau fel rhan o Gredyd Cynhwysol</p> <p>Mae'r briff hefyd yn awgrymu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- bod gwasanaethau VAWG a arweinir 'gan ac ar ran' menywod BAME eisoes yn wynebu problemau ariannol, a bydd llai o roddion yn cael effaith anghymesur ar y gwasanaethau hyn.</li> <li>- Mae'r newyddion ffug am y ffordd y dechreuodd COVID-19 wedi esgor ar droseddau casineb hiliol a senoffobia.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                    |
| <p>All in it together? The impact of Coronavirus on BAME people in Wales / 10 Ebrill 2020 / <a href="https://www.bevanfoundation.org/commentary/all-in-it-together-the-impact-of-coronavirus-on-bame-people-in-wales/">https://www.bevanfoundation.org/commentary/all-in-it-together-the-impact-of-coronavirus-on-bame-people-in-wales/</a></p> | Rocio Cifuentes, EYST Cymru | Blog | Hil                              | Iechyd; Cyflogaeth; Cyflog; Addysg; Tai; Cynhwysiant Digidol | <p>Mae'r blog hwn yn myfyrio ar oblygiadau COVID-19 i bobl BAME yng Nghymru. Noda'r awdur fod y feirws ei hun a'r camau a gymerir i reoli'r bygythiad yn cael effeithiau negyddol anghymesur ar bobl BAME, ac mae'n edrych yn debygol y byddant yn cynyddu ac yn gwaethygu anghydraddoldeb. Cyfeirir at y ffaith bod traean o'r bobl sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty hyd yma yn sgil y feirws ledled y DU yn BAME. Ymhlith y rhesymau a roddir am hyn mae'r ffaith bod cyfran uwch o bobl BAME mewn swyddi sy'n talu'r cyflogau isaf – gweithwyr mewn archfarchnadoedd, gyrwyr bws, y sawl sy'n pecynnu bwyd, gyrwyr cludo nwyddau a gweithwyr y GIG, sy'n wynebu mwy o risg o ddal y feirws. Maent</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>hefyd yn wynebu'r amodau cyflogaeth mwyaf ansicr, ar gontractau ansicr, lle rhoddir pwysau arnynt i weithio, yn aml mewn mannau nad ydynt yn parchu'r rheol 2 fetr o ran cadw pellter cymdeithasol, a heb gyfarpar diogelu personol digonol.</p> <p>Noda'r blog hefyd fod plant y gweithwyr allweddol hyn yr un mor agored i niwed, gan fynychu ysgolion sydd bellach yn lleoliadau sy'n darparu gofal plant, a byw gyda'r gofid mae eu rhieni yn ei wynebu bob dydd. Dywed fod plant BAME bellach yn wynebu graddau rhagfynegol gan ofni y bydd tuedd anymwybodol gan athrawon yn effeithio ar eu graddau ac, felly, eu rhagolygon mewn bywyd. Rhaid i'r plant hynny sy'n dal i geisio cael addysg wneud hynny mewn amodau byw gorlawn, heb fod ganddynt fynediad da i liniaduron na band eang, a heb rieni all eu cefnogi'n ieithyddol, nac yn ariannol, i gyflawni eu potensial.</p> <p>Mae'r awdur yn cyfeirio at y lefelau uwch o gyflyrau iechyd sydd eisoes yn effeithio ar bobl BAME, megis diabetes, y ffaith eu bod yn wynebu problemau iechyd meddwl, a'u bod yn wynebu rhwystrau i gael gwybodaeth iechyd a chymorth iechyd oherwydd rhwystrau iaith a</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                   | Awdur                                                  | Math              | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw                 | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|-------------------|----------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                        |                   |                                  |                                         | nawr allgáu digidol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Exclusive: deaths of NHS staff from covid-19 analysed / Ebrill 2020 / <a href="https://www.hsj.co.uk/exclusive-deaths-of-nhs-staff-from-covid-19-analysed/7027471.article">https://www.hsj.co.uk/exclusive-deaths-of-nhs-staff-from-covid-19-analysed/7027471.article</a> | Tim Cook, Emira Kursumovic, Simon Lennane – gwefan HSJ | Adroddiad ymchwil | Rhyw; Oedran; Hil                | Iechyd                                  | <p>Mae'r adroddiad ymchwil hwn yn dadansoddi nodweddion 106 o farwolaethau ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU oherwydd y coronafeirws fel y'u nodwyd yn y cyfryngau hyd at 22 Ebrill 2020.</p> <p>Disgrifiwyd ethnigrwydd y rhan fwyaf (96 y cant) o achosion a chafwyd llun o'r unigolyn gyda'r rhan fwyaf. Roedd yr unigolyn o gefndir BAME mewn 63 y cant o achosion. Hefyd, ganwyd llawer o'r unigolion y tu allan i'r DU.</p> <p>Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i nodi, ymhlith yr holl staff a gyflogir gan y GIG, fod pobl BAME yn cyfrif am tua 21 y cant, gan gynnwys tua 20 y cant o staff nyrsio a chymorth, a 44 y cant o staff meddygol. O gymharu â hynny, dengys yr ymchwil fod unigolion BAME yn cyfrif am 63 y cant, 64 y cant a 95 y cant o farwolaethau yn yr un grwpiau o staff.</p> |
| Risky business – Economic impacts of the coronavirus crisis on different groups of workers /                                                                                                                                                                              | Maja Gustafsson a Charlie McCurdy – Resolution         | Briff             | Rhyw; Oedran; Hil                | Iechyd; Cyflogaeth; Cyflog; Addysg; Tai | <p>Mae'r briff hwn yn darparu gwybodaeth am ddosbarthiad gweithwyr â nodweddion gwahanol mewn grwpiau penodol o swyddi.</p> <p>Dengys y canlyniadau y canlynol:</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                             | Awdur      | Math  | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|-------|----------------------------------|-------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Ebrill 2020 / <a href="https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2019/10/Risky-business.pdf">https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2019/10/Risky-business.pdf</a> | Foundation |       |                                  |                         | <ul style="list-style-type: none"> <li>- cyflogir 19% o weithwyr Gwyn mewn sectorau sydd wedi cau i lawr o gymharu â 28%, 22%, 20%, 24% a 28% o weithwyr o grwpiau ethnig Cymysg, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du neu Ddu Prydeinig, Tsieineaidd ac Arall, yn y drefn honno.</li> <li>- mae 26% o weithwyr Gwyn yn weithwyr allweddol sy'n wynebu'r risgiau iechyd mwyaf o gymharu â 25%, 29%, 38%, 21% a 25% o weithwyr o grwpiau ethnig Cymysg, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du neu Ddu Prydeinig, Tsieineaidd ac Arall, yn y drefn honno.</li> <li>- mae 35% o weithwyr Gwyn yn gweithio gartref o gymharu â 34%, 37%, 29%, 47% a 32% o weithwyr o grwpiau ethnig Cymysg, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du neu Ddu Prydeinig, Tsieineaidd ac Arall, yn y drefn honno.</li> <li>- mae 20% o weithwyr Gwyn yn gweithio y tu allan i'r cartref o gymharu â 12%, 12%, 13%, 9% ac 14% o weithwyr o grwpiau ethnig Cymysg, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du neu Ddu Prydeinig, Tsieineaidd ac Arall, yn y drefn honno.</li> </ul> |
| Are some ethnic                                                                                                                                                                     | Lucinda    | Briff | Oedran;                          | lechyd;                 | Mae'r briff yn awgrymu nad yw effeithiau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Awdur                                                | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|------|----------------------------------|-------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>groups more vulnerable to COVID-19 than others? / 01 Mai 2020 / <a href="https://www.ifs.org.uk/inequality/chapter/are-some-ethnic-groups-more-vulnerable-to-covid-19-than-others/">https://www.ifs.org.uk/inequality/chapter/are-some-ethnic-groups-more-vulnerable-to-covid-19-than-others/</a></p> | Platt a Ross Warwick – Sefydliad Astudiaethau Cyllid |      | Anabledd; Hil                    | Cyflogaeth; Safonau Byw | <p>argyfwng COVID-19 i gyd yn debyg rhwng grwpiau ethnig, a bod cyfuno'r holl leiafrifoedd gyda'i gilydd yn golygu na nodir gwahaniaethau allweddol.</p> <p>Mae nifer y marwolaethau mewn ysbytai oherwydd COVID-19 ar ei uchaf ymhlith pobl du Caribïaidd ac mae deirgwaith yn fwy na'r mwyafrif gwyn Prydeinig.</p> <p>Ar ôl cyfrif am oedran a daearyddiaeth, 'dylai'r' rhan fwyaf o grwpiau lleiafrifol brofi llai o farwolaethau y pen na'r mwyafrif gwyn Prydeinig.</p> <p>Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl cyfrif am oedran, rhywedd a lleoliad daearyddol grwpiau ethnig, mae anghydraddoldebau o ran nifer y marwolaethau o gymharu â'r mwyafrif gwyn Prydeinig yn waeth mewn gwirionedd i'r rhan fwyaf o grwpiau lleiafrifol na'r hyn a welir ar yr olwg gyntaf. Ar ôl diystyried oedran a daearyddiaeth, mae nifer y marwolaethau mewn ysbytai ymhlith y gymuned Fangladeshaidd ddwywaith y nifer o fewn y grŵp gwyn Prydeinig, mae nifer y marwolaethau ymhlith y gymuned</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                 | Awdur                  | Math            | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw                    | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|-----------------|----------------------------------|--------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                         |                        |                 |                                  |                                            | <p>Bacistanaid 2.9 gwaith mor uchel ac, ymhlith y gymuned du Affricanaidd, mae 3.7 gwaith mor uchel.</p> <p>Ni ellir cyfrif am y gwahaniaethau hyn ar hyn o bryd gan farwolaethau y tu allan i ysbytai (e.e. cartrefi gofal). Efallai y gall y ffaith bod gwaith unigolion yn eu hamlygu egluro'r nifer anghymesur o farwolaethau mewn rhai grwpiau. Mae cyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes ac sy'n peri risg hefyd yn arbennig o gyffredin ymhlith pobl hŷn mewn cymunedau Bangladeshaidd, Pacistanaid a du Caribiaidd.</p>           |
| Cyngor ar Bopeth – Crynodeb Cymru / wythnos yn dechrau 13 Ebrill 2020 / Heb ei gyhoeddi | Cyngor ar Bopeth Cymru | Adroddiad cryno | Oedran; Rhyw; Hil; Anabledd      | Nawdd cymdeithasol; Cyflogaeth; Dyled; Tai | Yn ôl yr adroddiad, yn ystod y cyfnod dan sylw, mae proffil ethnigrwydd cleientiaid Cyngor ar Bopeth Cymru wedi aros yn debyg i'r cyfnod blaenorol. Yn yr wythnos yn dechrau 13 Ebrill, nododd 6% o gleientiaid prosiect Advicelink a ariennir gan Lywodraeth Cymru eu bod yn BAME, o gymharu â 5% o gleientiaid yn yr wythnos yn dechrau 2 Mawrth. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys achosion lle na chofnodwyd ethnigrwydd, achosion lle nad oedd ethnigrwydd yn hysbys, nac achosion lle roedd yn well gan gleientiaid beidio â dweud. |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                          | Awdur                                                                                                  | Math                    | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------------------|-------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| BAME COVID-19 DEATHS – What do we know? Rapid Data & Evidence Review / 05 Mai 2020 / <a href="https://www.cebm.net/covid-19/bame-covid-19-deaths-what-do-we-know-rapid-data-evidence-review/">https://www.cebm.net/covid-19/bame-covid-19-deaths-what-do-we-know-rapid-data-evidence-review/</a> | Abdul Razaq, Dominic Harrison, Sakthi Karunanithi, Ben Barr, Miqdad Asaria, Ash Routen, Kamlesh Khunti | Adolygiad o lenyddiaeth | Hil                              | Iechyd                  | Mae'r adolygiad o dystiolaeth yn dynodi bod y risg o farw o COVID-19 yn sylweddol uwch ymhlith grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), ond nid yw marwolaethau yn gyson rhwng y grwpiau hyn. Yn yr un modd, gwelir cleifion BAME yn wynebu canlyniadau andwyol mewn unedau gofal dwys ac ymhlith staff meddygol a gweithwyr iechyd a gofal. Ni wyddys yr union resymau pam bod pobl BAME yn wynebu mwy o risg o COVID-19 ac yn fwy agored i niwed o'i herwydd. Gall fod nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at hyn ymhlith y boblogaeth gyffredinol megis y ffaith bod pobl BAME yn cael eu cynrychioli'n ormodol mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, cartrefi lle ceir sawl teulu a sawl cenhedlaeth, risgiau amlygiad i gydafiachedd, a nifer anghymesur yn gweithio mewn rolau gweithwyr allweddol band isel. Mae gweithwyr iechyd a gofal yn wynebu mwy o risg mewn lleoliadau iechyd a gofal. |
| It is not enough to talk about the disproportionate number of Covid-19 BAME deaths – we need action / 01 Mai                                                                                                                                                                                     | Sharan Dhaliwal                                                                                        | Blog                    | Hil                              | Iechyd; Cyflogaeth      | Mae'r blog yn cyfeirio at y ffaith bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar bobl BAME, a chyfeirir at y nifer uwch o farwolaethau ymhlith y gymuned hon o gymharu â'r gyfran o'r boblogaeth mae'n ei chynrychioli, ac o gymharu â'r marwolaethau a welwyd ymhlith                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                            | Awdur                                                            | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|------|----------------------------------|-------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 2020 / <a href="https://www.prospectmagazine.co.uk/politics/uk-bame-deaths-coronavirus-covid-19-why-nhs">https://www.prospectmagazine.co.uk/politics/uk-bame-deaths-coronavirus-covid-19-why-nhs</a>                                                                               |                                                                  |      |                                  |                         | <p>pobl wyn.</p> <p>Dywed yr awdur fod nyrsys o gefndiroedd BAME yn teimlo y gofynnir iddynt weithio ar wardiau COVID-19 yn amlach na nyrsys gwyn. Cyfeirir at y gyfran uchel o BAME ymhlith yr holl weithwyr allweddol, nid dim ond gweithwyr gofal iechyd. Awgrymir bod llawer o leiafrifoedd ethnig wedi mewnfudo gyda grwpiau teuluol mawr, eu bod yn aros yng nghartref y teulu ac yn treulio cryn dipyn o'u hamser yn mynychu gwasanaethau crefyddol, sydd i gyd yn golygu eu bod yn fwy agored i'r feirws.</p> <p>Cyfeirir at deimlad cyffredinol ymhlith cymunedau BAME nad yw'r llywodraeth yn eu parchu nac yn cyfathrebu â nhw, gyda'r awdur yn galw am wrando ar bobl BAME a'u cefnogi.</p> |
| NHS Covid 19 and health care worker deaths: questions that need asking / <a href="https://raceequalityfoundation.org.uk/health-care/nhs-covid-19-and-health-care-worker-deaths-">https://raceequalityfoundation.org.uk/health-care/nhs-covid-19-and-health-care-worker-deaths-</a> | Roger Kline, Cymrawd Ymchwil yn Ysgol Fusnes Prifysgol Middlesex | Blog | Hil                              | lechydd                 | <p>Mae'r blog yn cyfeirio at y ffaith bod cyfran sylweddol o'r bobl sy'n marw o COVID-19 o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME). Cyfeiria'r awdur at y cwestiynau y dylid bod wedi eu gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Pam na chynhaliawyd asesiadau risg ar gyfer gweithwyr allweddol?</li> <li>- Pa mor bwysig yw'r gyfran anghymesur o staff BME ar y rheng flaen?</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                      |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Awdur | Math       | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|------------|----------------------------------|-------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <a href="#">questions-that-need-asking/</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |       |            |                                  |                         | <ul style="list-style-type: none"> <li>- A yw cylch mewnol arweinwyr ac arbenigwyr allweddol y llywodraeth o gefndiroedd digon amrywiol?</li> <li>- Unwaith y dechreuodd y patrwm o farwolaethau BME ar lefel anghymesur, oni ddylid bod wedi dechrau ymchwiliad brys?</li> <li>- A ddiystyriwyd amrywiaeth a chynhwysiant cyn gynted ag y gwelwyd bod argyfwng?</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Coronavirus-related deaths by ethnic group, England and Wales: 2 March 2020 to 10 April 2020 / 07 Mai 2020 / <a href="https://www.ons.gov.uk/releases/coronavirusrelateddeathsbylethnicgroupenglandandwales2march2020to10april2020">https://www.ons.gov.uk/releases/coronavirusrelateddeathsbylethnicgroupenglandandwales2march2020to10april2020</a> | SYG   | Cyhoeddiad | Oedran; Rhyw; Hil                | Iechyd                  | <p>Cyhoeddodd SYG ddadansoddiad o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn ôl grŵp ethnig. Mae'n cwmpasu marwolaethau rhwng 2 Mawrth a 10 Ebrill 2020 a gofrestrwyd erbyn 17 Ebrill. Cyfunwyd y canlyniadau ar gyfer Cymru a Lloegr am fod y niferoedd dan sylw yn gymharol fach.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'r dadansoddiad dros dro hwn wedi dangos bod y risg o farw lle mae'n ymwneud â'r coronafeirws (COVID-19) ymhlith rhai grwpiau ethnig yn sylweddol uwch nag ar gyfer pobl Wyn.</li> <li>- Pan ystyrir oedran hefyd, mae dynion Du 4.2 gwaith yn fwy tebygol o farw lle mae hynny'n gysylltiedig â COVID-19 na dynion Gwyn, ac mae menywod Du 4.3 gwaith yn fwy tebygol na menywod Gwyn.</li> </ul> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                      | Awdur                  | Math                | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|----------------------------------------------|------------------------|---------------------|----------------------------------|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                              |                        |                     |                                  |                         | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ar ôl ystyried oedran a nodweddion demograffig-gymdeithasol eraill, a mesurau iechyd ac anabledd a hunanadroddwyd yng Nghyfrifiad 2011, lleihaodd y risg o farw lle mae hynny'n ymwneud â COVID-19 ymhlith dynion a menywod Du i 1.9 gwaith yn fwy tebygol na phobl Wyn.</li> <li>- Yn yr un modd, roedd dynion Bangladeshaidd a Phacistanaid 1.8 gwaith yn fwy tebygol o farw lle mae hynny'n ymwneud â COVID-19 na dynion Gwyn, pan ystyriwyd oedran a nodweddion demograffig-gymdeithasol eraill, a mesurau iechyd ac anabledd a hunanadroddwyd; roedd menywod 1.6 gwaith yn fwy tebygol.</li> <li>- Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod y gwahaniaeth yng nghyfraddau marwolaeth COVID-19 grwpiau ethnig yn rhannol o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol ac amgylchiadau eraill, ond mae rhan sy'n weddill o'r gwahaniaeth heb ei hegluro eto.</li> </ul> |
| OpenSAFELY: factors associated with COVID-19 | OpenSAFELY Collaborati | Erthygl cyfnodoly n | Oedran; Rhyw; Hil                | Iechyd                  | Mae pobl o grwpiau Asiaidd a du yn wynebu llawer mwy o risg o farw yn yr ysbyty o COVID-19, ac er gwaethaf yr hyn a nodwyd,                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                   | Awdur                                           | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|------|----------------------------------|-------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| related hospital death in the linked electronic health records of 17 million adult NHS patients / 07 Mai 2020 / <a href="https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.05.06.20092999v1">https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.05.06.20092999v1</a> | ve; Elizabeth Williamson , Alex J Walker, et al |      |                                  |                         | dim ond rhan o'r rheswm yw ffactorau risg glinigol sy'n bodoli eisoes neu amddifadedd; felly mae angen ymchwilio ymhellach i'r hyn sy'n ysgogi'r cysylltiad hwn ar fyrder.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Coronavirus will increase race inequalities / 26 Mawrth 2020 / <a href="https://www.runnymedetrust.org/blog/coronavirus-will-increase-race-inequalities">https://www.runnymedetrust.org/blog/coronavirus-will-increase-race-inequalities</a>              | Zubaida Haque – Ymddiriedolaeth Runnymede       | Blog | Hil                              | Iechyd; Tai; Cyflogaeth | <p>Mae'r blog hwn yn cyfeirio at y ffaith bod grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) yn y DU ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol tlotaf. Sonnir am yr anghydraddoldebau strwythurol sy'n golygu bod grwpiau BME yn wynebu risg llawer uwch o ddioddef salwch difrifol o COVID-19, yn ogystal â phrofi mwy o galedi economaidd yn sgil mesurau'r llywodraeth i arafu lledaeniad y feirws.</p> <p>Mae'r awdur yn awgrymu bod tystiolaeth sylweddol i ddangos bod cymunedau BME yn profi cyfraddau uwch o dlodi plant a salwch, a'u bod hefyd yn fwy tebygol o fod mewn swyddi ansicr a byw mewn tai o safon wael na phobl gwyn Prydeinig.</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>Mae'r blog yn cyfeirio at y cyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes sy'n fwy tebygol o effeithio ar bobl BME, megis clefyd y galon, gorbwysedd a diabetes.</p> <p>Cyfeirir at y ffaith bod lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawm, yn ogystal ag ar aelwydydd lle ceir sawl cenhedlaeth, ynghyd â bod yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain ac yn fwy tebygol o rentu oddi wrth landlordiaid preifat na grwpiau gwyn Prydeinig.</p> <p>Tynnir sylw at yr anghydraddoldebau a'r anfantais sylweddol a brofir gan leiafrifoedd ethnig ar bob cam o'u gyrfa yn y farchnad lafur yn y DU. Awgryma'r awdur fod yr anghydraddoldebau hyn o ran y farchnad lafur yn egluro'r cyfraddau tlodi sylweddol ymhlith aelwydydd BME, a dywed y bydd grwpiau BME ym Mhrydain yn llai tebygol o ddod drwy argyfwng COVID-19 yn economaidd.</p> <p>Codir pryderon na fydd llawer o bobl, gan gynnwys nifer anghymesur o bobl o leiafrifoedd ethnig, yn gymwys i gael cymorth drwy gynllun cyflogau'r llywodraeth, na saib rhag talu morgais, na Thâl Salwch Statudol na rhaglenni Credyd Cynhwysol ar sail prawf</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Awdur | Math  | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|-------|----------------------------------|-------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |       |       |                                  |                         | <p>modd, nac yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Ni fydd llawer yn ennill digon i fod yn gymwys i gael Tâl Salwch Statudol ac ni fydd eraill yn bodloni'r meini prawf ar gyfer budd-daliadau Credyd Cynhwysol ar sail prawf modd, sydd hefyd yn cynnwys terfyn dau blentyn a gorfod aros pum wythnos i gael budd-daliadau.</p> <p>Gelwir ar y llywodraeth i fynd ymhellach o ran ei hymateb economaidd i ddiogelu grwpiau incwm isel, pobl hunangyflogedig a'r rhai mewn gwaith ansicr, a gelwir ar Public Health England i roi mwy o arweiniad ar sut i ddiogelu pobl agored i niwed a phobl hŷn ar aelwydydd lle ceir sawl cenhedlaeth.</p> |
| Care, poverty and coronavirus across Britain / Ebrill 2020 / <a href="https://oxfamlibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620980/bn-care-poverty-coronavirus-280420-en.pdf;jsessionid=57EC922865470C65E36D854A66D39E">https://oxfamlibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620980/bn-care-poverty-coronavirus-280420-en.pdf;jsessionid=57EC922865470C65E36D854A66D39E</a> | Oxfam | Briff | Rhyw; Anabledd; Hil              | Cyflogaeth; Iechyd      | <p>Mae'r briff hwn yn disgrifio profiadau gofalmwyr o COVID-19. Awgryma, yn y DU, fod menywod, yn enwedig menywod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, wedi teimlo effaith anghymesur yn sgil y toriadau diweddar i wasanaethau cyhoeddus a nawdd cymdeithasol oherwydd y 'structural inequalities which means they earn less, own less and have more responsibility for unpaid care and domestic work'.</p> <p>Mae'r briff yn honni bod grwpiau BME yn llawer mwy tebygol o'i chael hi'n anodd cael</p>                                                                                                                         |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                           | Awdur                      | Math  | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw           | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|-------|----------------------------------|-----------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <a href="#">C9?sequence=1</a>                                                                                                                                                                                                                     |                            |       |                                  |                                   | <p>dau ben llinyn ynghyd.</p> <p>Nodir, yn 2014, mai menywod oedd penteulu 91% o deuluoedd un rhiant, a'u bod yn fwy tebygol o fod yn BME. Yn ôl tystiolaeth Carers UK, mae gofalwyr BME yn ei chael hi'n anoddach cael gafael ar gymorth ymarferol ac ariannol digonol oherwydd rhwystrau iaith, diffyg gwasanaethau sy'n briodol yn ddiwylliannol, a stereoteipiau o ran gofal.</p> <p>Cyfeirir at adroddiadau sy'n awgrymu y gall amlygiad i COVID-19 fod yn effeithio ar weithwyr BME yn fwy difrifol, gan eu bod yn fwy tebygol o fyw yn yr ardaloedd trefol poblog sydd wedi gweld yr effaith fwyaf.</p> |
| Rapidly Compiled – Initial Briefing on the COVID-19 Pandemic and the Duty to Prevent Violence Against Women and Girls / Ebrill 2020 / <a href="https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-">https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-</a> | End Violence Against Women | Briff | Rhyw; Anabledd; Hil              | Safonau byw; Iechyd; Tai; Trosedd | <p>Mae'r briff hwn yn amlinellu canlyniadau posibl COVID-19, a'r mesurau iechyd y cyhoedd angenrheidiol sydd eu hangen i'w reoli, i fenywod a merched sy'n profi trais neu sy'n wynebu risg o drais.</p> <p>Awgrymir bod profiadau ac anghenion menywod a merched BME yn cael eu gwrthio o'r neilltu ac yn mynd yn angof.</p> <p>Gelwir am gyllid brys i'r elusennau sy'n</p>                                                                                                                                                                                                                                  |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                    | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <a href="#">content/uploads/EV-AW-Coalition-Briefing-on-COVID19-Pandemic-and-Duty-to-Prevent-VAWG-April-2020-FINAL.pdf</a> |       |      |                                  |                         | <p>diogelu ac yn cefnogi goroeswyr, gan ystyried anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes o ran cyllido'r sector a'r angen i ddiogelu darpariaeth "gan ac ar ran" BME.</p> <p>Mae'r briff yn honni bod menywod mewn cymunedau BME sy'n wynebu mwy o rwystrau o ran cael eu diogelu a chael cyfiawnder eisoes yn cael eu targedu'n anghymesur o ran eu cam-drin yn rhywiol gan y rheini sydd o'r farn na chaiff y menywod hyn eu diogelu cymaint a'u bod yn llai tebygol o gael eu credu os byddant yn rhoi gwybod am yr hyn sy'n digwydd.</p> <p>Awgrymir ei bod yn hysbys bod menywod BME yn wynebu mwy o rwystrau o ran rhoi gwybod am gamdriniaeth a chael mynediad i lochesi a mathau eraill o gymorth. Cynrychiolir menywod BME yn ormodol mewn grwpiau 'wynebu risg uwch o' COVID-19, ac mae'r anghydraddoldebau hiliol yn ein system gofal iechyd eisoes yn effeithio arnynt.</p> <p>Cyfeirir ymhellach at y gwasanaethau cymorth 'gan ac ar ran' ledled y DU, sy'n arbenigo mewn deall ac ymateb i anghenion penodol menywod BME gwahanol. Honnir nad yw llawer o fenywod BME yn defnyddio</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>gwasanaethau cymorth prif ffrwd a'u bod ond yn ceisio cymorth gan y gwasanaethau 'gan ac ar ran' hyn; ymddiriedir ynddynt, mae eu darpariaeth o natur ddiwylliannol-benodol, ac mae ganddynt gyfraddau unigryw o uchel o hunanatgyfeiriadau. Mae'r gwasanaethau hyn yn hanfodol i fenywod BME yn ystod yr argyfwng hwn, a nhw yw'r ffordd orau o olrhain yr hyn sy'n digwydd i fenywod BME gwahanol.</p> <p>Gelwir ar i'r rheol "dim hawl i arian cyhoeddus" gael ei diddymu ar unwaith, am ei bod yn gwahaniaethu yn erbyn llawer o fenywod mudol ac yn eu niweidio, a chaiff effaith andwyol ar wasanaethau cam-drin domestig, a gwasanaethau cymorth menywod BME yn arbennig, sy'n ceisio cefnogi'r menywod hyn a'u plant serch hynny.</p> <p>Awgrymir, yn sgil yr hanes o blismona rhai cymunedau BME mewn ffordd radical, fod angen rhoi canllawiau cliriach i'r heddlu y bydd yr hawl i adael y cartref pan nad yw'n ddiogel aros yno bob amser yn drech na gorfodi polisi ynysu/cadw pellter cymdeithasol. Ni ddylai plant BME a'u mamau wynebu sancsiynau anghymesur yn ymwneud â phwerau'r heddlu i fynd â phobl ifanc adref.</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                           | Awdur     | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw        | Meysydd polisi dan sylw                                                                 | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|------|-----------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| How COVID-19 is affecting LGBT communities / 21 Ebrill 2020 / <a href="https://www.stonewall.org.uk/about-us/news/how-covid-19-affecting-lgbt-communities">https://www.stonewall.org.uk/about-us/news/how-covid-19-affecting-lgbt-communities</a> | Stonewall | Blog | Oedran; Rhyw; Hil; Cyfeiriadedd rhywiol | Addysg; Cyflogaeth; Iechyd; Safonau Byw; Cyfrannu at Gymdeithas; Cyfiawnder / Diogelwch | <p>Mae'r blog hwn yn cyfeirio at LGBT Traveller Pride, sef mudiad Teithwyr LGBT a arweinir gan y gymuned yn y DU, sy'n dweud ei bod hi'n gyfnod arbennig o anodd i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr am nad oes ganddynt gartref a gydnabyddir.</p> <p>Cyfeirir at bobl LGBT nad ydynt yn wyn sy'n fwy tebygol o brofi gwahaniaethu. Hefyd, er eu bod ddwywaith yn fwy tebygol o fynd i leoliadau neu ddigwyddiadau LGBT penodol na phobl LGBT wyn, maent bellach wedi colli manau diogel hanfodol.</p> <p>Awgrymir bod rhai cymunedau LGBT yn gweld effaith anghymesur, a chyfeirir at ddadansoddiad gan y Guardian yn dangos bod cleifion Asiaidd a Du yn cyfrif am draean o'r cleifion mewn ysbytai, er mai dim ond chwarter o'r boblogaeth yn yr un ardaloedd maent yn ei gynrychioli.</p> <p>Mae'r blog yn cyfeirio at Gadeirydd Cymdeithas Feddygol Prydain sydd wedi galw ar Lywodraeth y DU i gynnwys 'daily updates on ethnicity, circumstance and all protected characteristics of all patients'. Nes bod gennym ddata o'r fath, honnir na fyddwn wir</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Awdur               | Math           | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw                      | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------------|----------------------------------|----------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                     |                |                                  |                                              | yn deall yr effaith ar bob cymuned LGBT, na sut y gallwn ymateb ac achub bywydau.                                                                                                                                                                                                                                                       |
| Homes, health and COVID-19: how poor housing adds to the hardship of the coronavirus crisis / 2 Ebrill 2020 / <a href="https://www.iser.essx.ac.uk/blog/2020/04/02/homes-health-and-covid-19-how-poor-housing-adds-to-the-hardship-of-the-coronavirus-crisis">https://www.iser.essx.ac.uk/blog/2020/04/02/homes-health-and-covid-19-how-poor-housing-adds-to-the-hardship-of-the-coronavirus-crisis</a> | Amy Clair           | Blog           | Oedran; Anabledd; Hil            | Addysg; Cyflogaeth; Iechyd; Safonau byw; Tai | Mae'r blog hwn yn cyfeirio at anghydraddoldebau o ran tai a'r canlyniadau iechyd sy'n deillio o hynny. Honnir bod hiliaeth yn dal i fodoli, gan gyfyngu ar opsiynau tai pobl o leiafrifoedd ethnig, a bod digwyddiadau hiliol yn gysylltiedig â COVID-19 hefyd wedi'u hadrodd.                                                          |
| New Food Foundation data: food insecurity and debt are the new reality under lockdown / Mai 2020 / <a href="https://foodfoundation.org.uk/new-food-foundation-data-">https://foodfoundation.org.uk/new-food-foundation-data-</a>                                                                                                                                                                        | The Food Foundation | Arolwg ar-lein | Anabledd; Hil                    | Safonau byw; Sicrwydd bwyd                   | Mae'r Food Foundation yn cyflwyno canlyniadau arolwg ar-lein o 4352 o oedolion yn y DU a gynhaliwyd rhwng 14 ac 17 Mai gan YouGov (y pedwerydd yn y gyfres).<br><br>Nodir bod cartrefi sy'n wynebu o leiaf 1.5 gwaith yn fwy na lefelau cyfartalog o ansicrwydd bwyd yn cynnwys cartrefi ag oedolyn BAME (o gymharu ag ymatebwyr gwyn). |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Awdur                                    | Math               | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw                                  | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------|--------------------|----------------------------------|----------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <a href="#">food-insecurity-and-debt-are-the-new-reality-under-lockdown/</a>                                                                                                                                                                                                                                             |                                          |                    |                                  |                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| COVID-19 is a greater health risk to people on low incomes: we can give a life-line / 15 Ebrill 2020 / <a href="https://www.jrf.org.uk/blog/covid-19-greater-health-risk-people-low-incomes-we-can-give-life-line">https://www.jrf.org.uk/blog/covid-19-greater-health-risk-people-low-incomes-we-can-give-life-line</a> | Rachel Casey – Sefydliad Joseph Rowntree | Blog               | Oedran; Rhyw; Anabledd; Hil      | Cyflogaeth; Iechyd; Safonau byw; Tai                     | Mae'r blog hwn yn cyfeirio at adroddiad cyflwr y genedl Ymddiriedolaeth Runnymede ar Ethnigrwydd, Hil ac Anghydraddoldeb yn y DU sy'n dangos bod tlodi, anghydraddoldeb iechyd a thai o safon wael yn effeithio ar gymunedau BAME sydd ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol tlotaf ac sy'n fwy tebygol o fod ar reng flaen yr argyfwng hwn mewn swyddi ansicr, sy'n talu cyflog isel, yn codi sbwriel, yn gyrru bysiau ac yn gofalu am bobl sâl.                    |
| Racial injustice in the COVID-19 response / 17 Mai 2020 / <a href="https://charitysowhite.org/covid19">https://charitysowhite.org/covid19</a>                                                                                                                                                                            | Charity So White                         | Galwad i weithredu | Hil                              | Iechyd; Safonau byw; Tai; Trosedd / Cyfiawnder; Mewnfudo | Galwad i weithredu yw'r erthygl hon gan Charity So White. Tynna sylw at effaith COVID-19 ar gymunedau BAME ac amlinella bum maes y mae angen rhoi sylw uniongyrchol iddynt. (i) Anghydraddoldebau iechyd: Mae grwpiau BAME yn dal i gael eu cynrychioli'n ormodol yn y cymunedau "sy'n wynebu risg" a nodwyd gan y llywodraeth, sy'n peri pryder o ystyried natur hiliol mynediad a thriniaeth o fewn system iechyd y DU; (ii) Mesurau a Deddfwriaeth Frys: Mae'r diffyg |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                       | Awdur                            | Math       | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|------------|----------------------------------|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                               |                                  |            |                                  |                         | canllawiau o ran mesurau brys, megis pwerau'r heddlu a chau ysgolion, eisoes yn arwain at amrywiadau lleol ac effaith anghymesur ar gymunedau BAME; (iii) Risg o Dlodi: Caiff cymunedau BAME eu cynrychioli'n ormodol mewn categorïau gweithwyr allweddol, yn ogystal ag mewn grwpiau incwm isel, lle mae llai yn berchen ar eu cartrefi eu hunain; (iv) Amgylchedd Digroeso: Mae'r amgylchedd digroeso ac, yn arbennig, Dim Hawl i Arian Cyhoeddus yn atal mudwyr rhag cael eu hawliau sylfaenol yn ystod yr argyfwng; (v) Diogelu a Gorfodi: Pryder am gynnydd mewn trais domestig, hawliau'r rheini sydd yn y carchar neu a gedwir ar hyn o bryd, a mwy o ymosodiadau yn erbyn pobl o dras Dwyrain Asia. |
| COVID-19: Guidance for supporting people living on traveller sites, unauthorised encampments and canal boats / 18 Mawrth 2020 / <a href="https://www.gypsy-traveller.org/news/covid-19-guidance-">https://www.gypsy-traveller.org/news/covid-19-guidance-</a> | Friends, Families and Travellers | Canllawiau | Hil (Sipsiwn a Theithwyr)        | Iechyd                  | Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu paratoi i helpu awdurdodau lleol, rheolwyr safleoedd i deithwyr a sefydliadau sy'n rheoli camlesi a dyfrffyrdd i fynd i'r afael â'r coronafeirws (COVID-19) o fewn lleoliadau cartref i bobl sy'n byw ar wersylloedd sydd heb eu hawdurdodi, pobl sy'n byw ar safleoedd i deithwyr a phobl sy'n byw ar gamlesi. Fel rhan o'r canllawiau trafodir effaith COVID-19 ar gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Awgrymir y gwyddys bod y cymunedau hyn yn wynebu                                                                                                                                                                                                                      |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                      | Awdur                 | Math      | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw                                       | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|-----------|----------------------------------|---------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <a href="#">for-supporting-people-living-on-traveller-sites-unauthorised-encampments-and-canal-boats/</a>    |                       |           |                                  |                                                               | rhai o'r anghydraddoldebau iechyd mwyaf difrifol a'r canlyniadau gwaethaf mewn bywyd ymhlith poblogaeth y Deyrnas Unedig, hyd yn oed o gymharu â grwpiau eraill sydd dan anfantais neu sydd wedi'u hallgáu mewn cymdeithas, ac â lleiafrifoedd ethnig eraill. Cyfeirir at ymchwil gan Parry et al a nododd fod Sipsiwn a Theithwyr yn llawer mwy tebygol o fod â salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd, sy'n cyfyngu ar weithgareddau beunyddiol neu waith, a phrofi mwy o achosion yn gyffredinol o boen ar y frest a lefelau uwch o broblemau anadlu. O ganlyniad, awgrymir, o fewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, fod nifer anghymesur o uchel o bobl sy'n wynebu mwy o risg o salwch difrifol yn sgil y coronafeirws (COVID-19), ac felly gelwir ar awdurdodau lleol, rheolwyr safleoedd i deithwyr a sefydliadau sy'n rheoli dyfrffyrdd i ymateb mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r lefel o risg a brofir gan y grwpiau hyn. |
| The state of girls' rights in the UK - Early insights into the impact of the coronavirus pandemic on girls / | Plan International UK | Adroddiad | Oedran; Rhyw; Anabledd; Hil      | Addysg; Cyflogaeth; Iechyd; Safonau byw; Trosedd / Cyfiawnder | Cynhaliodd Plan International UK arolwg cynrychioliadol o fwy na 1,000 o ferched rhwng 14 ac 21 oed ledled y DU. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg a dadansoddiad cychwynnol o rai o'r problemau ehangach sy'n wynebu merched yn ystod y                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                            | Awdur                                                  | Math      | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|-----------|----------------------------------|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Mai 2020 / <a href="https://plan-uk.org/file/plan-uk-state-of-girls-rights-coronavirus-reportpdf/download?token=gddEAzIz">https://plan-uk.org/file/plan-uk-state-of-girls-rights-coronavirus-reportpdf/download?token=gddEAzIz</a> |                                                        |           |                                  |                         | <p>pandemig, gydag argymhellion ar gyfer gweithredu.</p> <p>O ran addysg, mae'r adroddiad yn awgrymu y gall plant o grwpiau lleiafrifol neu ethnig neu ffoaduriaid a mudwyr fethu â dysgu o bell oherwydd rhwystrau ieithyddol neu ddiwylliannol. Hefyd, awgrymir, gan fod dyfodol disgyblion bellach yn dibynnu ar asesiadau llai ffurfiol, fod angen sicrhau bod gwaith a gaiff ei asesu yn gwbl ddiennw er mwyn osgoi unrhyw duedd anymwybodol (yn erbyn galluedd menywod a merched, lleiafrifoedd ethnig a phlant anabl), sydd gan bawb, ac yn wir duedd ymwybodol yn y broses.</p> <p>Gan gyfeirio at eu hadroddiad ar Gyflwr Hawliau Merched yn y DU, mae'r awduron yn awgrymu bod materion yn ymwneud â hiliaeth yn y system addysg yn codi i ferched.</p> |
| The Work of COVID: care work and care home mortality / 13 Mai 2020 / <a href="https://autonomy.work/portfolio/careandc">https://autonomy.work/portfolio/careandc</a>                                                               | Ishan Khurana, Lukas Kikuchi a Will Stronge - Autonomy | Adroddiad | Rhyw; Hil                        | Cyflogaeth; Iechyd      | <p>Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar rywedd, ethnigrwydd ac amodau gwaith gweithwyr gofal.</p> <p>Noda'r adroddiad fod mwyafrif y gweithwyr gofal yn BAME yn Llundain, ond bod 81% yn wyn yn y DU yn gyffredinol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Awdur                                                 | Math      | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|-----------|----------------------------------|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <a href="#">arehomes/#1588759570965-9424737d-e0ba</a>                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                       |           |                                  |                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| One in eight British households has no garden / 14 Mai 2020 / <a href="https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/oneineightbritishhouseholdshasnogarden/2020-05-14">https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/oneineightbritishhouseholdshasnogarden/2020-05-14</a> | SYG                                                   | Erthygl   | Hil                              | Safonau Byw             | Noda'r erthygl hon fod canran y cartrefi heb ardd yn uwch ymhlith lleiafrifoedd ethnig, gyda phobl Dduon yn Lloegr bron i bedair gwaith yn fwy tebygol na phobl Wyn o fod heb ardal awyr agored gartref                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| Creation of the BAME categories: a methodological approach in the SAIL Databank / 28 Mai 2020 / Heb ei gyhoeddi                                                                                                                                                                                             | Tîm Health Data Research (HDR) UK, Prifysgol Abertawe | Adroddiad | Hil                              | Iechyd                  | Mae'r adroddiad yn archwilio'r broses o godio ethnigrwydd o fewn ffynonellau data iechyd a data gweinyddol arferol yng Nghymru, gan nodi nad yw'n ddigonol. Fodd bynnag, awgryma'r awduron, drwy ddefnyddio system diogelu preifatrwydd Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL), y gellir dwyn ynghyd godau ethnig o sawl ffynhonnell a gwella'r dadansoddiadau. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r canfyddiadau cychwynnol, a gwelir nad yw ethnigrwydd ar gael mewn 38% o'r cofnodion a ddadansoddwyd. Gofynna'r awduron am fewnbwn arbenigwyr o sawl cymuned ethnig a gynrychiolir ar Grŵp |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                       | Awdur                                                                                                            | Math                | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------------------------------|-------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                               |                                                                                                                  |                     |                                  |                         | Cynghorol BAME y Prif Weinidog er mwyn helpu i nodi'r gwaith dadansoddi a fyddai'n mynd i'r afael â'u pryderon.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Rapid analysis of ethnic variation in Covid-19 outcomes in Wales using Onomap, a name-based ethnicity classification tool / 24 Mai 2020 / Heb ei gyhoeddi eto | Daniel Thomas, Oghogho Orife, Chris Williams – Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyd dadwy lechyd Cyhoeddu s Cymru | Adroddiad technegol | Hil                              | lechyd                  | Ni chaiff ethnigrwydd ei gofnodi mewn setiau data gwyliadwriaeth COVID-19 arferol. Defnyddiwyd Onomap, sef pecyn meddalwedd dosbarthu ethnigrwydd yn seiliedig ar enw, i ymchwilio i amrywiadau ethnig mewn profion SARS-COV-2, y gyfran a oedd yn cael canlyniad positif, y gyfran a oedd yn cael eu derbyn i'r ysbyty, ac o blith y rheini, y gyfran a oedd yn cael gofal dwys a'r rhai a fu farw. Mae'r adroddiad yn rhybuddio bod cyfyngiadau ar berfformiad Onomap, ac felly awgryma y dylai'r holl ganfyddiadau gael eu dehongli gan gadw hynny mewn cof. Mae camddosbarthu ethnigrwydd yn debygol o gynhyrchu amcangyfrifon mwy ceidwadol o'r risg uwch sy'n wynebu grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Drwy ddosbarthu ethnigrwydd gan ddefnyddio enwau, mae'r awduron yn amcangyfrif bod 5% o'r 35,618 o brofion SARS-Cov-2 a gynhaliwyd yng Nghymru hyd at 3 Mai 2020 mewn grwpiau BAME. Mae hyn yn debyg i'r gyfran amcangyfrifedig o bobl BAME yng Nghymru. Mae'r bobl a brofwyd yn gymysgedd o'r rhai a brofwyd yn y gymuned a'u |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>teuluoedd, a'r rhai a brofwyd pan oeddent yn yr ysbyty. O'r rhai a brofwyd, roedd y gyfran a gafodd ganlyniad positif yn debyg mewn grwpiau BAME a gwyn. Roedd y bobl BAME a gafodd ganlyniad positif yn llai tebygol o fod yn yr ysbyty ond roedd y rhai a oedd yn llawer iau (oedran cymedrig 51, o gymharu â 75 oed). Roedd y bobl BAME a oedd yn yr ysbyty gyda COVID-19 yn llawer mwy tebygol o fod mewn unedau gofal dwys, ac yn llawer iau na phobl wyn a oedd yn cael gofal dwys. Pan edrychwyd ar ethnigrwydd yn benodol, roedd grwpiau ethnig 'Gwyn-arall', 'Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd', ac 'Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd' yn llawer mwy tebygol o gael gofal dwys, hyd yn oed ar ôl ystyried oedran a rhywedd. Roedd dynion a phobl oedranus yn wynebu mwy o risg o farw ymhlith y rhai a oedd yn yr ysbyty gyda COVID-19. Roedd yn ymddangos bod pobl BAME a phobl wyn a oedd yn byw yng Nghymru yn wynebu risg debyg o farw. Fodd bynnag, roedd y niferoedd yn fach a dylid bod yn ofalus wrth eu dehongli. Roedd hwn yn ddadansoddiad cychwynol cyflym o'r data gwyliadwriaeth a oedd eisoes yn bodoli, gan ddefnyddio meddalwedd dosbarthu ethnigrwydd yn seiliedig ar enw. Ymddengys ei fod yn cadarnhau bod amrywiadau ethnig</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                 | Awdur        | Math               | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|--------------------|----------------------------------|-------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                         |              |                    |                                  |                         | mewn canlyniadau COVID-19 yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim gwybodaeth am y penderfyniadau sylfaenol. Mae'r adroddiad yn argymhell y dylid cynnal ymchwil fanwl bellach i setiau data mwy, gan ddefnyddio ethnigrwydd hunangofnodedig os oes modd, er mwyn gallu cynnal archwiliad epidemiolegol manwl o benderfyniadau canlyniadau gwael ymhlith pobl BAME yng Nghymru. Mae'r awduron hefyd yn argymhell y dylid cynnal ymchwil ansoddol er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o benderfyniadau cymdeithasol a diwylliannol amrywiadau ethnig mewn canlyniadau COVID-19.                                                     |
| Stereotype threat / 23 Mai 2020 / <a href="https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(20)31139-9/fulltext">https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(20)31139-9/fulltext</a> | Angela Saini | Erthygl cyfnodolyn | Hil                              | Iechyd                  | Mae'r erthygl cyfnodolyn hon yn cyfeirio at y risg o anghofio nad oes gan y categorïau demograffig rydym yn eu cydnabod yn gymdeithasol fawr ddim ystyr fiolegol, a'u bod yn celu problem ehangach mewn meddygaeth o ran hil. Awgryma'r awdur ei bod hi wedi dod yn arferol mewn ymchwil feddygol ac ymarfer clinigol i gategoreiddio pobl yn ôl eu hil a'u hethnigrwydd. Er bod hyn yn ddiau yn bwysig wrth nodi grwpiau demograffig a all fod dan anfantais am eu bod yn cael eu trin mewn ffordd anghyfartal, ac i nodi unrhyw batrymau amgylcheddol neu gymdeithasol sy'n effeithio ar gyffredinrwydd clefyd, mae'r categorïau hyn |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Awdur                  | Math   | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|--------|----------------------------------|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                        |        |                                  |                         | hefyd yn cael eu defnyddio weithiau i lywio ymchwil, diagnosis a thriniaeth mewn ffyrdd nad ydynt o reidrwydd yn ddefnyddiol. Ar eu gwaethaf, gallant fod yn atgyfnerthu mythau niweidiol am wahaniaethau biolegol rhwng grwpiau.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| BAME nursing staff experiencing greater PPE shortages despite COVID-19 risk warnings / 28 Mai 2020 / <a href="https://www.rcn.org.uk/news-and-events/news/uk-bame-nursing-staff-experiencing-greater-ppe-shortages-covid-19-280520">https://www.rcn.org.uk/news-and-events/news/uk-bame-nursing-staff-experiencing-greater-ppe-shortages-covid-19-280520</a> | Coleg Nyrsio Brenhinol | Arolwg | Hil                              | Iechyd                  | Dengys arolwg o aelodau'r Coleg Nyrsio Brenhinol fod staff nyrsio o grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn fwy tebygol o gael eu gadael heb gyfarpar diogelu personol. Dengys yr arolwg diweddaraf o aelodau'r Cyngor, o blith y staff nyrsio a oedd yn gweithio mewn amgylcheddau risg uchel (gan gynnwys unedau gofal dwys a gofal critigol), mai dim ond 43% o'r ymatebwyr o gefndir BAME a ddywedodd fod ganddynt ddigon o gyfarpar i ddiogelu'r llygaid a'r wyneb. Mae hyn o gymharu â 66% o staff nyrsio gwyn Prydeinig, sy'n wahaniaeth mawr. Roedd hefyd anghysondebau o ran y defnydd o ynau sy'n gwrthsefyll hylifau ac mewn achosion lle gofynnwyd i staff nyrsio ailddefnyddio eitemau defnydd untro o gyfarpar diogelu personol. Nododd yr arolwg fylchau tebyg ar gyfer y rhai a oedd yn gweithio mewn amgylcheddau nad oeddent yn rhai risg uchel. Yn y cyfamser, nododd staff wahaniaethau o ran hyfforddiant |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Awdur                   | Math   | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|--------|----------------------------------|-------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                         |        |                                  |                         | cyfarpar diogelu personol, gyda 40% o ymatebwyr BAME yn dweud nad oeddent wedi cael hyfforddiant, o gymharu â dim ond 31% o ymatebwyr gwyn Prydeinig. Dywedodd bron i chwarter y staff nyrsio BAME nad oedd ganddynt unrhyw hyder bod eu cyflogwr yn gwneud digon i'w diogelu rhag COVID-19, o gymharu â dim ond 11% o ymatebwyr gwyn Prydeinig.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| Arolwg yn datgelu effeithiau mwy Coronafeirws Newydd (COVID-19) a mesurau cyfyngu ar lesiant pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru / 29 Mai 2020 / <a href="https://icc.gig.cymru/newyddion1/arolwg-yn-datgelu-effeithiau-mwy-coronafeirws-newydd-covid-19-a-mesurau-cyfyngu">https://icc.gig.cymru/newyddion1/arolwg-yn-datgelu-effeithiau-mwy-coronafeirws-newydd-covid-19-a-mesurau-cyfyngu</a> | Iechyd Cyhoeddu s Cymru | Arolwg | Hil                              | Iechyd                  | Bob wythnos mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cynnal cyfweiliadau â channoedd o bobl 18 oed neu drosodd ledled Cymru, i ddeall sut y mae'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) a'r mesurau i atal ei ledaeniad yn effeithio ar lesiant pobl yng Nghymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dadansoddi'r data o'r arolygon llesiant wythnosol (yn cwmpasu'r cyfnod 13 Ebrill – 24 Mai) i ddeall yn well sut y gallai'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) a mesurau i atal ei ledaeniad fod yn effeithio ar bobl o wahanol ethnigrwydd. Mae'r adroddiad diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn dangos bod pobl o gefndir BAME yn nodi cyfraddau uwch o bryder a theimladau o unigedd, gyda thraean (33 y cant) o ymatebwyr BAME yn dweud eu bod yn teimlo'n ynysig o gymharu â llai na chwarter |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Awdur                 | Math      | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|-----------|----------------------------------|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <a href="#">ar-lesiant-pobl-dduon-ac-asiadd-a-lleiafrifoedd-ethnig-syn-byw-yng-nghymru/</a>                                                                                                                                                                                                                                                 |                       |           |                                  |                         | (22 y cant) o'r rhai nad ydynt yn y grŵp BAME. Fodd bynnag, awgrymodd y data hefyd fod mwy o bobl BAME wedi cynyddu arferion fel ymwybyddiaeth ofalgar (19 y cant BAME o gymharu â 7 y cant o'r rhai nad ydynt yn y grŵp BAME) i fynd i'r afael â'r teimladau hyn. Ymhlith y pryderon mawr ar gyfer ymatebwyr BAME roedd cyllid, gyda 22 y cant yn poeni 'llawer' am eu sefyllfa ariannol; a 17% am golli swydd a nifer y swyddi sydd ar gael (o gymharu ag 11 y cant o'r rhai nad ydynt yn y grŵp BAME). At hynny, dywedodd 28 y cant o ymatebwyr BAME eu bod yn poeni 'llawer' am eu hiechyd meddwl eu hunain, cyfradd uwch na'r rhai nad ydynt yn y grŵp BAME (19 y cant). |
| Disparities in the risk and outcomes of COVID-19 / Mehefin 2020 / <a href="https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/889195/disparities_review.pdf">https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/889195/disparities_review.pdf</a> | Public Health England | Adroddiad | Oedran; Rhyw; Hil                | Iechyd                  | Rhydd yr adroddiad hwn adolygiad disgrifiadol o'r data ar y gwahaniaethau o ran risgiau a chanlyniadau COVID-19. Cyflwynir canfyddiadau yn seiliedig ar ddata gwyliadwriaeth a oedd ar gael i PHE adeg ei gyhoeddi, gan gynnwys drwy gysylltu â setiau data iechyd ehangach. Mae'n cadarnhau bod effaith COVID-19 wedi atgynhyrchu anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes ac, mewn rhai achosion, eu cynyddu.<br><br>Roedd pobl o grwpiau pobl Dduon yn fwy                                                                                                                                                                                                              |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>tebygol o gael diagnosis. Roedd cyfraddau marwolaeth o COVID-19 ar eu uchaf ymhlith pobl o grwpiau pobl Dduon ac Asiaidd. Mae hyn yn mynd yn groes i'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, pan oedd y cyfraddau marwolaeth yn is ymhlith pobl Dduon ac Asiaidd na phobl Wyn. Felly, mae'r gwahaniaeth rhwng grwpiau ethnig mewn perthynas â marw o COVID-19 i'r gwrthwyneb llwyr i'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Dengys dadansoddiad o gyfraddau goroesi ymhlith achosion lle cadarnhawyd COVID-19 a chan ddefnyddio grwpiau ethnig manylach, ar ôl cyfrif am effaith rhyw, oedran, amddifadedd a chrefydd, fod pobl Fangladeshaidd tua dwywaith yn fwy tebygol o farw na phobl gwyn Prydeinig. Roedd pobl Tsieineaidd, Indiaidd, Pacistanaidd, Asiaidd arall, Caribiaidd a Du arall rhwng 10 a 50% yn fwy tebygol o farw na phobl Gwyn Prydeinig.</p> <p>Ni wnaeth y gwaith dadansoddi hwn gyfrif am effaith galwedigaeth, cydafiachedd na gordewdra. Mae'r rhain yn ffactorau pwysig am eu bod yn gysylltiedig â'r risg o ddal COVID-19, y risg o farw, neu'r ddwy. Mae tystiolaeth arall wedi dangos, pan gaiff cydafiachedd ei gynnwys, fod y gwahaniaeth o ran y risg o farw ymhlith cleifion yn yr ysbyty</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                          | Awdur | Math               | Nodweddion gwarchodedig dan sylw             | Meysydd polisi dan sylw    | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|--------------------|----------------------------------------------|----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                  |       |                    |                                              |                            | yn sylweddol is. Pan gafodd y data hwn ei ddadansoddi, roedd mwyafrif y profion wedi'u cynnig i'r rhai yn yr ysbyty ag angen meddygol. Felly, mae achosion a gadarnhawyd yn cynrychioli poblogaeth â chlefyd difrifol, yn hytrach na phawb sy'n cael eu heintio. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall gwahaniaethau rhwng cyfraddau diagnosio adlewyrchu gwahaniaethau yn y risg o gael yr haint, mynd i'r ysbyty ag angen meddygol a'r tebygolrwydd o gael prawf. Mae rhai o'r dadansoddiadau yn yr adolygiad hwn yn rhai dros dro a byddant yn parhau i gael eu gwella. Bwriedir gwneud mwy o waith i gasglu, cysylltu a dadansoddi data a fydd yn ategu'r gwaith dadansoddi hwn. |
| Racism in medicine / Chwefror 2020 / <a href="https://www.bmj.com/racism-in-medicine">https://www.bmj.com/racism-in-medicine</a> | BMJ   | Erthygl cyfnodolyn | Oedran; Rhyw; Hil; Beichiogrwydd / Mamolaeth | Addysg; Cyflogaeth; Iechyd | Mae rhifyn arbennig y BMJ ar hiliaeth mewn meddygaeth yn adlewyrchu bywydau gwaith meddygon o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phrofiadau gofal iechyd cleifion o leiafrifoedd ethnig. Mae'r rhifyn hwn yn canolbwyntio ar hil a'i effaith ar iechyd, gan dynnu sylw, ymhlith pethau eraill, at rai o'r anghyfiawnderau a wynebir gan weithwyr gofal iechyd a chleifion o leiafrifoedd ethnig, o'r ffaith bod menywod du bum gwaith yn fwy tebygol o farw wrth roi genedigaeth na menywod gwyn yn y DU, i'r bwlch rhwng perfformiad myfyrwyr a                                                                                                                               |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Awdur            | Math      | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------|----------------------------------|-------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                  |           |                                  |                         | meddygon gwyn a myfyrwyr a meddygon o leiafrifoedd ethnig, a'r tebygolrwydd uwch o weithdrefnau disgyblu yn erbyn meddygon o leiafrifoedd ethnig.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Impact of COVID-19 on the BAME community and voluntary sector: Final report of the research conducted between 19 March and 4 April 2020 / Ebrill 2020 / <a href="https://static1.squarespace.com/static/58f9e592440243412051314a/t/5eaab6e972a49d5a320cf3af/1588246258540/REPORT+Impact+of+COVID-19+on+the+BAME+Community+and+voluntary+sector%2C+30+April+2020.pdf">https://static1.squarespace.com/static/58f9e592440243412051314a/t/5eaab6e972a49d5a320cf3af/1588246258540/REPORT+Impact+of+COVID-19+on+the+BAME+Community+and+voluntary+sector%2C+30+April+2020.pdf</a> | K Murray - Ubele | Adroddiad | Hil                              | Darparu gwasanaethau    | <p>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau dau arolwg a gynhaliwyd rhwng 19 a 23 Mawrth (Arolwg 1) a rhwng 27 Mawrth a 4 Ebrill (Arolwg 2). Cafwyd 182 o ymatebion i'r arolygon hyn gan sefydliadau ac unigolion, gan gynrychioli 165 o sefydliadau gwahanol. Canolbwyntiodd yr arolygon yn benodol ar effaith COVID-19 ar sefydliadau BAME sy'n darparu gwasanaethau i gymunedau BAME. Cadarnhaodd yr arolwg rai meysydd a oedd yn peri pryder cyffredinol o fewn yr elusen, y gymuned a'r sector gwirfoddol, ond hefyd nododd rai pryderon yr ymddengys eu bod yn benodol i sefydliadau BAME. Mae enghreifftiau o'r pryderon penodol hyn yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae llawer o'r sefydliadau a ymatebodd i Arolwg 2 (86 i gyd) wedi dechrau datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n sicrhau y gellir parhau i gefnogi'r bobl agored i niwed sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Fel y gwelwyd, mae'r argyfwng wedi creu heriau newydd i rai</li> </ul> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>sefydliadau o ran darparu cymorth posibl ar gyfer trais domestig ac iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Heb gymorth, efallai na fydd llawer o sefydliadau yn gallu addasu mor gyflym ag eraill, ac, felly, efallai y byddant mewn sefyllfa lle na allant barhau â'u gwaith; ac i'r rhai a all addasu, efallai y byddant yn gweithredu ar sail 'rheoli argyfwng' sy'n datblygu i fod yn 'normal' newydd iddynt.</li> <li>- Sefydliadau BAME micro a bach, sy'n derbyn llai na £10,000 a hyd at £100,000 y flwyddyn (87%) ar y cyfan, yr effeithiwyd arnynt fwyaf.</li> <li>- O ganlyniad i faint y mwyafrif o'r sefydliadau hyn a ymatebodd (sefydliadau micro a bach), nid oedd yn syndod nad oedd gan y mwyafrif 'gronfeydd wrth gefn' (68%), gyda dim ond 19% â digon i bara 3 mis. Gyda'i gilydd, os bydd yr argyfwng yn para mwy na'r 3 mis tybiannol, o ystyried y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael, gallai 87% (neu naw allan o ddeg o sefydliadau) roi'r gorau i weithredu ar ôl</li> </ul> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Awdur                                           | Math                      | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|---------------------------|----------------------------------|-------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                 |                           |                                  |                         | <p>tri mis; law yn llaw â hynny, gallai rhwng 15,000 ac 20,000 o ddefnyddwyr yr wythnos fethu â chael gafael ar wasanaethau.</p> <p>Yna rhestrir cyfres o argymhellion sy'n deillio o'r arolwg yn yr adroddiad.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| <p>Council with highest COVID-19 death rate brands illness a 'housing disease' / 29 Mai 2020 / <a href="https://www.insidehousing.co.uk/news/news/council-with-highest-covid-19-death-rate-brands-illness-a-housing-disease-66608">https://www.insidehousing.co.uk/news/news/council-with-highest-covid-19-death-rate-brands-illness-a-housing-disease-66608</a></p> | Nathaniel Barker a Lucie Heath – Inside Housing | Erthygl newyddion ar-lein | Dd/G                             | Tai                     | <p>Mae'r erthygl hon yn cyfeirio at y cyngor â'r gyfradd uchaf o farwolaethau o COVID-19 yn y wlad, sef Cyngor Newham, gan alw'r feirws yn "housing disease". Dywed yr awduron fod eu dadansoddiad yn dangos patrwm clir rhwng mannau lle ceir nifer fawr o farwolaethau o'r coronafeirws a ffactorau tai megis tai gorlawn, digartrefedd a phrinder tai cymdeithasol. Awgrymir bod cymharu data swyddogol ar gyfraddau marwolaeth COVID-19 yn gysylltiedig ag oedran a thai gorlawn yn dangos, o'r 20 o ardaloedd awdurdod lleol lle mae COVID-19 wedi lladd y mwyaf fesul 100,000 o bobl, fod gan 14 y ganran uchaf o gartrefi â llai o ystafelloedd gwely na'r hyn sydd ei angen hefyd.</p> |
| Ethnicity and outcomes from COVID-19: the ISARIC CCP-UK                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Ewan M Harrison, Annemarie B                    | Erthygl cyfnodolyn        | Hil                              | Iechyd                  | <p>Roedd pobl o leiafrifoedd ethnig a oedd yn yr ysbyty gyda COVID-19 yn fwy tebygol o gael eu derbyn i ofal critigol a chael eu rhoi ar beiriant i'w helpu i anadlu na phobl Wyn, er</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |

| Teitl / Dyddiad / Dolen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Awdur                                           | Math      | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw                    | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|-----------|----------------------------------|--------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| prospective observational cohort study of hospitalised patients / Heb ei gyhoeddi eto                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Docherty, Benjamin Barr, et al, ar ran ISARIC4C |           |                                  |                                            | gwaethaf y ffaith bod difrifoldeb y clefyd yn debyg adeg eu derbyn, a bod y symptomau wedi para cyfnod tebyg, a'u bod yn iau â llai o gydafiachedd. Mae pobl o dras De Asiaidd yn wynebu mwy o risg o farw, yn rhannol oherwydd bod gan fwy ohonynt diabetes.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| Beyond the data: Understanding the impact of COVID-19 on BAME groups / Mehefin 2020 / <a href="https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/892376/COVID_stakeholder_engagement_synthesis_beyond_the_data.pdf">https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/892376/COVID_stakeholder_engagement_synthesis_beyond_the_data.pdf</a> | Public Health England                           | Adroddiad | Oedran; Rhyw; Hil; Ffydd         | Addysg; Cyflogaeth; Iechyd; Tai; Safon Byw | <p>Dengys adolygiad PHE o'r gwahaniaethau o ran risg a chanlyniadau COVID-19 fod cysylltiad rhwng perthyn i rai grwpiau ethnig a'r tebygolrwydd o gael canlyniad prawf positif a marw o COVID-19. Ni chafodd geneteg ei gynnwys yng nghwmpas yr adolygiad.</p> <p>Nododd yr adolygiad fod y cyfraddau uchaf o ddiagnosis o COVID-19 wedi'u safoni ar sail oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ymhlith pobl Dduon (486 o fenywod a 649 o ddynion) a bod yr isaf ymhlith pobl Wyn (220 o fenywod a 224 o ddynion).</p> <p>Dangosodd dadansoddiad o gyfraddau goroesi ymhlith achosion lle cadarnhawyd COVID-19, ar ôl cyfrif am effaith rhyw, oedran, amddifadedd a chrefydd, fod pobl Fangladeshaid tua dwywaith yn fwy tebygol o farw na phobl gwyn Prydeinig. Roedd pobl Tsieineaidd, Indiaidd, Pacistanaidd, Asiaidd arall, Caribïaidd a Du arall rhwng 10 a 50% yn</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>fwy tebygol o farw na phobl Gwyn Prydeinig</p> <p>Roedd cyfraddau marwolaeth o COVID-19 ar eu uchaf ymhlith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o gymharu â phobl Wyn. Mae hyn yn mynd yn groes i'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, pan oedd y cyfraddau marwolaeth pob achos yn is ymhlith pobl Dduon ac Asiaidd.</p> <p>O gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd marwolaeth pob achos bron i bedair gwaith yn uwch na'r disgwyl ymhlith dynion Du yn y cyfnod hwn, a bron i deirgwaith yn uwch ymhlith dynion Asiaidd a bron i ddwywaith yn uwch ymhlith dynion Gwyn. Ar gyfer menywod, roedd marwolaethau bron i deirgwaith yn uwch yn y cyfnod hwn ymhlith menywod Du, Cymysg ac Arall, a 2.4 gwaith yn uwch ymhlith menywod Asiaidd o gymharu â 1.6 gwaith ymhlith menywod Gwyn.</p> <p>Ni wnaeth y gwaith dadansoddi hwn gyfrif am effaith galwedigaeth, cydafiachedd na gordewdra. Mae'r rhain yn ffactorau pwysig am eu bod yn gysylltiedig â'r risg o ddal COVID-19, y risg o farw, neu'r ddwy. Mae tystiolaeth arall wedi dangos, pan gaiff cydafiachedd ei gynnwys, fod y gwahaniaeth o</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>ran y risg o farw rhwng grwpiau ethnig ymhlith cleifion yn yr ysbyty yn sylweddol is.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adolygiad epidemiolegol PHE drwy grynhoi adolygiad llenyddiaeth cyflym a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.</p> <p>Cynhaliwyd adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth a gyhoeddwyd er mwyn nodi a oedd anghydraddoldebau yn bodoli o ran y ffordd mae COVID-19 yn effeithio ar grwpiau BAME o gymharu â phobl gwyn Prydeinig. Hefyd, ceisiodd yr adolygiad ddeall y penderfynyddion iechyd cymdeithasol a strwythurol a all effeithio ar wahaniaethau o ran nifer yr achosion o COVID-19, ei driniaeth, afiachedd, a marwolaethau ymhlith grwpiau BAME.</p> <p>Hefyd, ymgysylltwyd ag ystod eang o randdeiliaid. Cynhaliwyd 17 o sesiynau i gyd yn cynnwys dros 4,000 o bobl ag ystod eang o ddiddordeb mewn materion BAME. Darparodd y sesiynau hyn gipolwg pellach ar y ffactorau a all ddylanwadu ar berthynas COVID-19 â chymunedau BAME, ei effaith arnynt, a strategaethau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Rôl PHE oedd dwyn</p> |

| Teitl / Dyddiad / Dolen | Awdur | Math | Nodweddion gwarchodedig dan sylw | Meysydd polisi dan sylw | Canfyddiadau allweddol (mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|-------------------------|-------|------|----------------------------------|-------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                         |       |      |                                  |                         | <p>ynghyd yr adborth a gafwyd ac nid oedd yn gyfrifol am gadarnhau sail dystiolaeth y pwyntiau a godwyd.</p> <p>Y prif themâu a oedd yn deillio o sesiynau'r rhanddeiliaid oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Anghydraddoldebau hirsefydledig a waethygydd gan COVID-19</li> <li>- Mwy o risg o amlygiad i COVID-19 a mwy o risg o'i ddal</li> <li>- Mwy o risg o gymhlethdodau a mwy o risg o farw o COVID-19</li> <li>- Hiliaeth, gwahaniaethu, stigma, ofn ac ymddiriedaeth</li> </ul> <p>Mae'r adroddiad yn rhestru nifer o argymhellion i weithredu arnynt.</p> |